

# Paratowch gynllun dianc

Gosod larwm mwg yw'r cam hanfodol cyntaf i ddiogelu eich hun rhag tân. Ond beth fydddech chi'n ei wneud pe bai'r larwm yn canu yn ystod y nos?

Bydd yr adran hon yn eich helpu wrth baratoi cynllun ar gyfer argyfwng.

- Cynlluniwch lwybr dianc a gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod sut i ddianc
- Gofalwch fod yr allanfeydd yn glir
- Y llwybr gorau yw'r ffordd arferol i mewn ac allan o'ch cartref
- Meddyliwch am ail lwybr rhag ofn i'r un cyntaf gael ei rwystro
- Cymerwch ychydig o funudau i ymarfer eich cynllun dianc
- Adolygwch eich cynllun os bydd dyluniad eich cartref yn newid

**Cadwch  
allweddi drysau  
a ffenestri lle  
gall pawb ddod  
o hyd iddynt**



**Lluniwch lwybr dianc**